



Asiantaeth
Safonau
Bwyd

food.gov.uk

Food
Standards
Agency

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd i Gomisiynydd y Gymraeg 2021 – 22

Medi 2022

Cynnwys

| | |
|--|----|
| 1. Cyflwyniad..... | 3 |
| 2. Amcanion yr Uned Iaith Gymraeg..... | 3 |
| 3. Prif Brosiectau 2021-22..... | 4 |
| 4. Ymgysylltu'n Allanol..... | 8 |
| 5. Gweithdrefnau Mewnol..... | 10 |
| 6. Nifer a Chanran y Staff Dwyieithog..... | 11 |
| 7. Hyfforddiant Iaith..... | 15 |
| 8. Technoleg Gwybodaeth..... | 16 |
| 9. Aelodaeth Gorfforaethol 'Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru'..... | 16 |
| 10. Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg..... | 17 |
| 11. Cwynion..... | 18 |

1. Cyflwyniad

1.1. Diben yr adroddiad hwn yw nodi'r gweithgareddau a gynhaliwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, sy'n ategu cydymffurfiaeth y corff â'i Gynllun Iaith Gymraeg.

1.2. Dyma grynodedb o rai o brif weithgareddau'r ASB i ddefnyddwyr yng Nghymru yn ystod y flwyddyn a fu'n rhan o'i gwaith parhaus i gyflwyno darpariaeth ddwyieithog o'r radd flaenaf. Yr Uned Iaith Gymraeg sy'n gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth hon, ond ni fyddai hyn yn bosib heb gydweithrediad staff yr Asiantaeth yn ei chyfanrwydd, sydd oll yn chwarae eu rhan i sicrhau hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yr ASB yng Nghymru.

2. Amcanion yr Uned Iaith Gymraeg

2.1 Dyma brif amcanion gweithrediadau'r Uned Iaith Gymraeg:

- Darparu gwasanaethau dwyieithog yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg yr ASB
- Rhoi cyngor a chyfarwyddyd i staff yr ASB ar ei pholisi iaith Gymraeg
- Monitro ac adrodd ar gydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith Gymraeg
- Cyflwyno gwasanaeth cyfieithu effeithiol ac o ansawdd uchel a rheoli holl gynnwys digidol Cymraeg yr ASB
- Hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a'r tu hwnt a chefnogi staff, gan eu cyfeirio at hyfforddiant/gwersi Cymraeg perthnasol.

3. Prif Brosiectau 2021-22

3.1 Mae'r holl ohebiaeth a chyhoeddiadau ar gyfer defnyddwyr yng Nghymru yn cael eu creu'n ddwyieithog a'u hyrwyddo trwy'r llwyfannau perthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gohebiaeth o ddydd i ddydd, straeon newyddion, ymgyrchoedd a chynnwys ar gyfer y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol yr ASB a Bwletinau Chwarterol yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd.

3.2 Gweler isod drosolwg o'r prosiectau mwyaf arwyddocaol a pherthnasol a gynhaliwyd yn 2021/22:

Ymgyrch Codi Llais dros Alergeddau

Eleni, cynhaliodd yr ASB ymgyrch codi ymwybyddiaeth lwyddiannus wedi'i thargedu at bobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc. Y nod oedd eu hannog i godi llais am eu halergeddau bwyd bob tro y byddant yn bwyta allan neu'n archebu tecawê. Er mwyn cyrraedd y gynulleidfa darged hon, gwnaethom greu cyfres o [fideos dwyieithog](#) a'u cyhoeddi ar [YouTube](#) yn ogystal â'n cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn manteisio ar wahanol llwyfannau er mwyn sicrhau bod ein negeseuon iechyd y cyhoedd hollbwysig yn cyrraedd y gynulleidfa darged yn y ddwy iaith.

Yn ogystal, gwnaethom greu pecyn adnoddau dwyieithog i awdurdodau lleol, gan gynnwys dolenni at y fideos, negeseuon dwyieithog i'w rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol a thempled datganiad i'r wasg. Trwy wneud hyn, rydym yn ei gwneud hi mor hawdd â phosib i awdurdodau lleol Cymru rannu cynnwys dwyieithog â'u rhanddeiliaid hwy ar eu cyfrifon cymdeithasol, gan sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ledled y wlad yn cael cyfle i glywed am ymgyrchoedd yr Asiantaeth yn eu dewis iaith.

Rhaglen waith ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS)

Yn sgil cyflwyno Cyfraith Natasha ar 1 Hydref 2021, cyflwynodd yr Asiantaeth raglen waith i dynnu sylw at y newid yn y gyfraith, y gofynion newydd ar gyfer busnesau, a hawliau

defnyddwyr mewn perthynas â bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol, fel brechdanau a phasteiod. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys paratoi ystod eang o ddeunyddiau dwyieithog i randdeiliaid mewn awdurdodau lleol ac yn y diwydiant, yn ogystal â chyfoeth o wybodaeth ar ein gwefan. Cyhoeddwyd [stori newyddion](#), [canllawiau labelu](#), [canllawiau i gigyddion](#), [canllawiau i arlwywyr](#), ymhlith adnoddau eraill.

Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2021

Yn 2017, cyflwynodd y Llywodraeth ddeddfwriaeth arloesol a oedd yn ei gwneud yn ofyniad statudol i bob sefydliad gyda 250 neu ragor o weithwyr adrodd yn flynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn eu sefydliad. Mae'r ASB yn cyhoeddi ei [hadroddiad](#) yn ddwyieithog ar y wefan bob blwyddyn.

Adroddiad Blynyddol

Ym mis Tachwedd, cyhoeddwyd [Adroddiad Blynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd](#) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Mae'r Adroddiad yn amlinellu perfformiad yr Asiantaeth a'i phrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn, ac mae ar gael yn ddwyieithog ar ein gwefan.

Bwyd a Chi 2

[Bwyd a Chi 2](#) yw ein prif arolwg ymchwil gymdeithasol sy'n rhoi cipolwg manwl i ni ar ymddygiadau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Mae ein contractiwr, [Ipsos](#), yn cynnal [arolygon](#) dwyieithog ddwywaith y flwyddyn i fesur gwybodaeth, agweddau ac ymddygiadau o ran diogelwch bwyd a materion bwyd eraill ymhlith oedolion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, fel y'u cofnodir gan y defnyddwyr eu hunain. Mae'r Uned Iaith yn gweithio gydag Ipsos i ddarparu cyfieithiadau ar gyfer yr arolygon ynghyd ag unrhyw ohebiaeth gysylltiedig.

Cafodd y fformat ei ailgynllunio'n llwyr y llynedd i ddarparu data mwy cynhwysfawr a rheolaidd. Erbyn hyn, caiff yr arolwg ei gynnal ar-lein yn bennaf gan ddefnyddio methodoleg o'r enw 'gwthio i'r we', ond mae copïau papur ar gael hefyd. Mae'r broses gyfan yn gwbl

ddwyieithog, a chaiff unrhyw ymatebion a ddaw i law eu cyfieithu i'r Gymraeg a'u cynnwys yn y data. Cyhoeddir yr adroddiadau ar ein [gwefan](#).

Ymgyrch Cofrestru Busnesau Bwyd

Fel rhan o raglen trawsnewid rheoliadol, datblygodd yr ASB wasanaeth newydd cynhwysfawr ar gyfer cofrestru busnesau bwyd newydd ar-lein. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu trwy wefan GOV.UK, ac er nad yw'r wefan honno yn cynnig taith gwbl Gymraeg i ddefnyddwyr, sicrhawyd bod holl gydrannau'r gwasanaeth sydd o fewn rheolaeth a system rheoli cynnwys yr ASB yn gwbl ddwyieithog, yn ogystal â'r holl wybodaeth am y gwasanaeth a ddarperir gan yr ASB i ddefnyddwyr, busnesau ac awdurdodau lleol. Yn ystod y flwyddyn adrodd, crëwyd ymgyrch hysbysebu ddwyieithog i dynnu sylw at y gwasanaeth a'r angen i fusnesau bwyd newydd gofrestru yn sgil cynnydd sylweddol mewn busnesau bwyd bach a sefydlwyd yn ystod y pandemig. Yn ogystal â chyhoeddi [straeon newyddion](#) a chyhoeddi [gwybodaeth ar ein gwefan](#), aethom ati i greu pedwar [fideo](#) ac adnoddau i'w rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar YouTube.

Yn unol â'n harfer, lluniwyd pecyn adnoddau dwyieithog i awdurdodau lleol, er mwyn rhannu adnoddau'r ymgyrch, templedi llythyrau, straeon newyddion a negeseuon i'w rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Nod hyn yw ei gwneud yn hawdd i'n partneriaid mewn awdurdodau lleol rannu ein hymgyrchoedd dwyieithog ar eu sianeli cyfathrebu eu hunain.

Strategaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd 2022 – 2027

Cyhoeddwyd [Strategaeth](#) bum mlynedd newydd yr Asiantaeth ym mis Mawrth eleni. Mae'r Strategaeth yn nodi gweledigaeth a blaenoriaethau'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer system fwyd well. Mae'r Strategaeth, ynghyd â'r holl ohebiaeth ac adnoddau a oedd yn gysylltiedig â'i hyrwyddo, yn gwbl ddwyieithog. Yn ogystal â'r ddogfen ei hun, aethom ati i greu fideos Cymraeg a Saesneg i dynnu sylw at nodau'r Asiantaeth dros y pum mlynedd nesaf. Cafodd y fideos hyn eu chwarae yn nigwyddiad lansio'r Strategaeth yn y Senedd, ac ar Stodin yr ASB yn yr Eisteddfod Genedlaethol a Sioe Frenhinol Cymru. Yn ystod y digwyddiad yn y Senedd, gwnaethon rannu diweddariadau byw yn ddwyieithog ar ein

cyfrifon cyfryngau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod ein cynulleidfa yn cael yr un profiad, ni waeth beth fo’u dewis iaith.

Cyfryngau cymdeithasol

Mae’r Uned Iaith yn rheoli cyfrifon Cymraeg yr ASB yng Nghymru. Rydym yn rhannu negeseuon, newyddion, adnoddau a gwybodaeth bwysig â’n dilynwyr trwy ein cyfrifon prysur:

Facebook: Asiantaeth Safonau Bwyd – <https://www.facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd>

Instagram: @foodgov - <https://www.instagram.com/foodgov/>

Twitter: @FSACymru <https://twitter.com/FSACymru>

Rydym yn postio’n ddyddiol, gan sicrhau bod y negeseuon Cymraeg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd â’r rhai ar y cyfrifon Saesneg cyfatebol, gan greu delweddau neu adnoddau o’r un safon broffesiynol er mwyn parchu ein cynulleidfaoedd Cymraeg. Rydym yn defnyddio ein cyfrifon i gefnogi ein hymgyrchoedd a’n gweithgarwch polisi, ac er mwyn rhannu gwybodaeth hollbwysig â’r cyhoedd, rhanddeiliaid a phartneriaid, gan gynnwys rhybuddion alergedd a hysbysiadau galw a thynnu cynnyrch yn ôl.

Gwefan food.gov

Mae ein gwefan gorfforaethol, food.gov, yn ddwyieithog yn unol â darpariaethau ein Cynllun Iaith. Rydym yn ei diweddarau’n gyson bob dydd er mwyn sicrhau bod unrhyw gynnwys perthnasol yn cael ei gyhoeddi’n ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys newyddion, canllawiau ar gyfer busnesau, cyngor i ddefnyddwyr, swyddogaethau’r sefydliad a gwybodaeth gorfforaethol.

Mae swyddogion yr Uned Iaith hefyd yn olygyddion gwe a defnyddiwn rota ddyddiol i gadw llygad ar y system rheoli cynnwys, fel y gallwn gyfieithu unrhyw gynnwys y bwriedir ei gyhoeddi. Trwy hyn, rydym yn sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio â’n rhwymedigaethau o ran dwyieithrwydd a bod cynnwys Cymraeg yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd â’r cynnwys Saesneg. Mae ein perthynas waith effeithiol gyda chydweithwyr yn yr adran Gyfathrebu, a’r

prosesau cynllunio sydd ar waith, yn golygu bod uwchlwytho'n ddwyieithog yn rhan annatod o'r broses llunio cynnwys ar gyfer y wefan. Cafodd strwythur y wefan ei hailwampio yn ystod misoedd cyntaf 2021, a bu'r Uned Iaith yn rhan o'r cynllun datblygu o'r cychwyn cyntaf. Dylid nodi nad yw rhywfaint o gynnwys mwy technegol a gwyddonol y wefan yn cael ei gyfieithu am ei fod wedi'i eithrio yn ôl ein blaenoriaethau cyfieithu a amlinellir yn y Cynllun Iaith. At ei gilydd, bydd y cynnwys uniaith Saesneg o dan y faner 'Gwyddoniaeth a Thystiolaeth', ond hyd yn oed yn yr adran honno, rydym wedi sicrhau bod yr haenau uchaf ar gael yn Gymraeg.

4. Ymgysylltu'n allanol

4.1 Yn ystod 2021-22, roedd gennym ddau gontract allanol gyda thrydydd partion i gynnig gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru ar ran yr ASB.

Darpariaeth Theatr mewn Addysg

Ar hyn o bryd, darparwr allanol, [Bollo](#), sy'n ymgymryd â'r contract hwn. Mae'r sioe yn cael ei chynnig i ysgolion yn Gymraeg neu'n Saesneg, ac yna bydd y cast yn cynnal gweithdy addysgol gyda'r plant yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r contract yn pennu bod yr holl ohebiaeth a anfonir mewn cysylltiad â'r sioe yn ddwyieithog bob amser. Mae'r Uned Iaith yn cydweithio gyda'r contractiwr i ddarparu'r holl adnoddau dwyieithog, gan gynnwys sgript y sioe ac unrhyw ddiwygiadau, taflenni, a deunyddiau addysgu cysylltiedig. Mae'r Uned hefyd yn rhan o'r broses o gymeradwyo'r actorion a'u cynghori, gan arsylwi ar berfformiadau mewn gwahanol ysgolion er mwyn monitro ansawdd y ddarpariaeth a sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg yr ASB. Caiff unrhyw ddiwygiadau neu adnoddau newydd eu cyfieithu gan yr Uned Iaith er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd. Mae cydlynnydd y cynhyrchiad hwn yn cysylltu â'r Uned Iaith i ofyn am gyngor ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Trwy hyn, rydym yn gallu darparu sioeau Cymraeg sy'n cydymffurfio â'r Cynllun Iaith. Darperir cynnig iaith i bob ysgol pan anfonir gwahoddiad atynt i gymryd rhan yn y ddarpariaeth Theatr mewn Addysg.

Adnodd addysgol 'Crucial Crew'

Mae digwyddiadau 'Crucial Crew' yn cyflwyno negeseuon hollbwysig am ddiogelwch i blant ysgolion cynradd yng Nghymru. Fel arfer, mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithdai a gynhelir gan yr ASB, ynghyd â sefydliadau eraill fel yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub i ddysgu am ddiogelwch mewn ffordd ymarferol a rhyngweithiol. Oherwydd cyfyngiadau parhaus yn sgil y pandemig COVID-19, roedd elfennau o'r ddarpariaeth hon yn dal i gael eu cynnal ar-lein yn rhannol yn ystod y flwyddyn adrodd, gan symud yn raddol tuag at gyflwyno'r sioeau wyneb yn wyneb o fis Medi 2021 ymlaen.

Yr un contractiwr allanol, Bollo, sy'n cynnal y digwyddiadau hyn ar ran yr ASB yng Nghymru ac mae'r staff a gyflogir i weithio ar y digwyddiadau yn ymwybodol o'r holl rwymedigaethau o ran y Gymraeg. Ar gyfer y digwyddiadau cyfrwng Cymraeg, mae'r contractiwr yn sicrhau bod yr hwylusydd yn siaradwr Cymraeg rhugl a bod y sesiynau'n cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg drwyddynt draw. Mae'r holl adnoddau papur ac electronig a ddefnyddir ar y stondin yn gwbl ddwyieithog. Roedd yr Uned Iaith yn rhan o broses gastio'r perfformwyr sy'n cynrychioli'r Asiantaeth yn y digwyddiadau hyn. Roedd gan y rheiny a ddewiswyd y sgiliau a'r ymwybyddiaeth iaith sy'n hanfodol yn ôl y polisi iaith er mwyn cynnal y digwyddiadau'n gwbl ddwyieithog. Mae staff yr Uned Iaith wedi bod yn bresennol mewn ambell ddigwyddiad 'Crucial Crew' at ddibenion monitro, ac rydym yn ffyddiog bod yr adnodd hwn yn cydymffurfio â'r gofynion a nodwyd yn ein Cynllun Iaith o ran digwyddiadau cyhoeddus, trwy gynnig gwasanaeth Cymraeg sydd o'r un safon â'r gwasanaeth Saesneg. Darparwyd gwerth 60 diwrnod o sesiynau Crucial Crew Cymraeg yn ystod y cyfnod hwn.

Gwobrau Chwarae Teg

Cafodd yr ASB ei henwebu am wobwr Cyflogwr Chwarae Teg ym mis Hydref eleni, ac fel rhan o'r broses, gofynnwyd i'r Asiantaeth gymryd rhan mewn fideo yn amlinellu'r ffordd rydym yn hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth o fewn y sefydliad. Yn ogystal â son am gynhwysiant ieithyddol yn y fideo, sydd i'w gweld [yma](#), gwnaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd greu'r fideo yn Gymraeg, yn unol â dewis iaith yr aelod o staff a oedd yn siarad yn y fideo.

5. Gweithdrefnau Mewnol

Mae'r ASB yn parhau i weithredu nifer o fesurau corfforaethol ac arloesol i wella darpariaeth ddwyieithog.

5.1 Staff Newydd

Mae staff newydd yn yr ASB yng Nghymru yn cael sesiwn ymwybyddiaeth iaith a chyflwyniad i Gynllun Iaith Gymraeg yr ASB fel rhan o'r broses gynefino. Edrychir yn benodol ar y swydd dan sylw a phennu pa gamau y bydd angen iddynt eu cymryd er mwyn cyflawni eu dyletswyddau personol fel rhan o'r Cynllun. Rydym yn pwysleisio bod gan bob aelod staff unigol rôl i'w chwarae er mwyn galluogi'r ASB i gydymffurfio â'i chyfrifoldebau statudol, a bod agwedd gadarnhaol cyn bwysiced â'r gallu i siarad yr iaith.

Mae pob aelod staff yn gallu manteisio ar gyfleoedd i ddysgu'r iaith, er enghraifft, trwy ddarpariaeth Cymraeg Gwaith. Rydym yn annog unrhyw staff sydd â diddordeb i fynd ati i ddysgu Cymraeg ac yn hyrwyddo cyrsiau ac adnoddau yn rheolaidd. Gwnaeth un aelod o staff gwblhau cwrs ar-lein Cymraeg Gwaith 'Croeso: Y Byd Cyfathrebu' yn ystod y flwyddyn adrodd.

At hynny, mae staff newydd yn cael cyflwyniad i waith yr Uned Iaith, gan gynnwys sut i geisio cyngor polisi, a sut i ddefnyddio'r gwasanaethau cyfieithu. Ceir tudalennau penodol ar y fewnwyd sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am ein darpariaeth ddwyieithog.

Mae'r Gymraeg yn rhan o raglen gynefino'r ASB gyfan ar gyfer holl staff newydd yr ASB (ar draws pob rhan o'r ASB, gan gynnwys Llundain, Caerefrog a Birmingham). Ceir adran sy'n sôn am y Cynllun Iaith Gymraeg, y gwasanaeth cyfieithu a'r Uned Iaith Gymraeg yn y llawlyfr staff, ar y fewnwyd ac ar lwyfan cyfryngau cymdeithasol fewnol yr ASB, sef Yammer. Rydym yn ategu hyn gydag e-bost croeso gan yr Uned Iaith at bob aelod newydd o staff, sy'n eu

cyfeirio at gyngor defnyddiol ac yn codi ymwybyddiaeth yn gyffredinol o'r gofyniad i weithredu'n ddwyieithog yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnwys fideo a grëwyd gan yr Uned Iaith sy'n amlinellu'r gofynion yn ôl ein Cynllun Iaith.

Penodwyd Rheolwr newydd ar gyfer yr Uned Iaith Gymraeg ym mis Ionawr 2021, yn sgil dyrchafiad y Rheolwr blaenorol i swydd Pennaeth Cyfathrebu, y Gymraeg a Chymorth Busnes yr Asiantaeth yng Nghymru. Mae'r penodiad hwn yn golygu bod tri o uwch reolwyr yr Asiantaeth yng Nghymru yn siaradwyr Cymraeg ac yn helpu i feithrin, hyrwyddo a normaleiddio dwyieithrwydd o'r brig i lawr.

5.2 Iechyd Da – grŵp cymorth staff ar gyfer Iechyd a Lles

Mae gan yr ASB yng Nghymru weithgor Iechyd a Lles sy'n trefnu ac yn hwyluso ymgyrchoedd, digwyddiadau a mentrau i wella a hyrwyddo lles staff. Mae'r grŵp yn hyrwyddo pob digwyddiad ac yn cynhyrchu'r holl adnoddau'n ddwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys cylchlythyr Iechyd a Lles chwarterol, a gyhoeddir yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn ogystal â chanllawiau eraill i staff, er enghraifft canllawiau ar wirfoddoli a gweithgarwch corfforol.

Mae pencampwr Iechyd meddwl yr ASB yng Nghymru yn ddwyieithog, a gall gynnig cymorth gwerthfawr yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn yn hanfodol gyda gwasanaethau cymorth fel Iechyd meddwl, oherwydd gallai peidio â chynnig dewis iaith fod yn niweidiol i bobl sydd mewn cyflwr bregus wrth geisio cymorth.

6. Nifer a Chanran y Staff Dwyieithog

6.1 Mae nifer y swyddi yn yr ASB yng Nghymru wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf i adlewyrchu cyfrifoldebau ehangach yr Asiantaeth yn sgil ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, yn enwedig ym maes cynhyrchion rheoleiddiedig. Mae [diwylliant gweithio'r ASB](#) yn golygu ein bod yn cynnig ffyrdd cwbl hyblyg o weithio (gan gynnwys y dewis i weithio'n gyfan gwbl o gartref) ac offer digidol sy'n hwyluso gweithio o bell. Mae nifer sylweddol o staff yr ASB yn gweithio gartref erbyn hyn, ac o'r herwydd rydym yn

recriwtio o ardal ddaearyddol ehangach nag erioed ar gyfer swyddi yng Nghymru, sy'n estyn y tu hwnt i Gymru. Erbyn hyn, mae nifer o staff yr ASB yng Nghymru yn gweithio yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Er gwaethaf y cynnydd mewn niferoedd a'r dosbarthiad daearyddol, mae'r Asiantaeth wedi cynnal ei chanran o siaradwyr Cymraeg, sef 27%. Mae ein [Strategaeth Sgiliau Dwyieithog](#) (a ddisgrifir yn fanylach isod) yn sicrhau bod swyddogion Cymraeg eu hiaith wedi'u penodi i swyddi y nodir bod y Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer, a bod gallu Cymraeg ym mhob tîm.

Mae'r ASB yng Nghymru yn rhoi pwyslais ar agwedd staff at y Gymraeg yn ogystal â'u gallu. Mae gweithgarwch codi ymwybyddiaeth parhaus yr Uned yn sicrhau bod ymwybyddiaeth yn uchel iawn ymhlith staff ac mae diwylliant gweithio dwyieithog yn rhan annatod o hunaniaeth gorfforaethol yr Asiantaeth yng Nghymru.

Roedd 64 o swyddi yn yr ASB yng Nghymru yn ystod 2020-21, a 7 swydd wag, gyda rhai yn cael eu llenwi/gadael yn ystod y cyfnod dan sylw. Gofynnwyd i staff hunanasesu eu lefel o allu Cymraeg trwy holiadur e-bost. Mae'r tabl canlynol yn nodi asesiad y gweithwyr eu hunain o'u gallu Cymraeg:

| Hyfedredd | Nifer | Canran |
|---------------------|-------|--------|
| Rhugl | 17 | 27% |
| Canolig | 2 | 3% |
| Sylfaenol – Canolig | 4 | 6% |
| Sylfaenol | 35 | 55% |
| Dim | 6 | 9% |

Mae diffiniadau o hyfedredd lefelau wedi'u seilio ar lefelau [Dysgu Cymraeg](#).

6.2 Cafodd [Strategaeth Sgiliau Dwyieithog](#) yr ASB ei mabwysiadu'n swyddogol gan yr Uwch-dîm Rheoli ym mis Rhagfyr 2021. Mae ein Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn amlinellu sut y byddwn yn cynnal gweithlu dwyieithog digonol er mwyn darparu gwasanaeth Cymraeg effeithiol yng Nghymru. Mae'r ASB wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth Cymraeg effeithiol yng Nghymru, yn unol â'r ymrwymadau yn ein Cynllun Iaith Gymraeg 2019-22.

Mae darparu gwasanaeth ystyrllon yng Nghymru, nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan ddarparu gwasanaethau cyfartal yn y ddwy iaith, yn gofyn am weithlu medrus a all weithio'n ddwyieithog. Er mwyn cynnal y gweithlu dwyieithog medrus hwn, mae'n rhaid i ni ddenu a chadw staff sy'n siarad Cymraeg ar draws holl dimau a phroffesiynau'r ASB yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, mae angen rhoi cyfle i staff cyfredol ymgymryd â hyfforddiant i ddatblygu neu wella eu sgiliau Cymraeg.

Bydd ein Strategaeth Sgiliau Cymraeg yn ein helpu i reoli a chynllunio sgiliau iaith staff.

Mae'n cwmpasu'r meysydd allweddol canlynol:

- Gwella'r gwasanaethau dwyieithog a ddarparwn
- Pennu lefel sgiliau Cymraeg (darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad) sy'n ofynnol ar gyfer timau a swyddi ledled yr ASB yng Nghymru
- Recriwtio unigolion sydd â'r lefel briodol o sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd sy'n cael ei hysbysebu
- Hyrwyddo a dathlu gweithle dwyieithog, yn fewnol ac yn allanol, gyda'r bwriad o ddenu a chadw staff dwyieithog
- Cynyddu'r cyfleoedd i staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a magu eu hyder.

Ein nod yw sicrhau bod ein gwasanaeth Cymraeg yn bodloni'r gofynion a nodir ym Mesur y Gymraeg 2011, oherwydd gallent fod yn uniongyrchol berthnasol i'r ASB yn y dyfodol. Dylai hefyd gyfrannu at darged uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac anrhydeddu ymrwymiad yr ASB i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu.

6.3 Yn unol â darpariaethau ein [Strategaeth Sgiliau Dwyieithog](#), hysbysebir pob swydd wag yng Nghymru naill ai fel 'Cymraeg – dymunol' neu 'Cymraeg – hanfodol', fel y bo'n briodol, er mwyn sicrhau bod yna'r gallu i siarad Cymraeg ym mhob tîm. Penderfynir ar y gofyniad hwn fesul achos mewn cysylltiad â Chyfarwyddwr Cymru a'r Uned Iaith, ac yn unol â meysydd lle bo angen penodol am siaradwyr Cymraeg (megis yr adran Gyfathrebu neu o fewn y Tîm Cymorth Busnes). Pan fo'r meini prawf hyn wedi'u cynnwys mewn hysbysebion swyddi, esbonnir pam y gwnaed hynny (er enghraifft, i ddarparu gwasanaeth dwyieithog ar brif linell ffôn yr ASB yng Nghymru), er mwyn sicrhau nad yw'r rhain yn mynd yn feini prawf

'tic yn y bocs' cyffredinol. Mae'r penodiadau iaith Gymraeg allweddol yn ystod y flwyddyn adrodd yn cynnwys Rheolwr y Gymraeg, a swyddog HEO yn y tîm Cyfathrebu. Mae hyn yn golygu bod 3 allan o 4 aelod o staff y tîm Cyfathrebu yng Nghymru yn siaradwyr Cymraeg erbyn hyn.

6.4 Yn ystod 2021-22, hysbysebwyd pum swydd fel swyddi 'Cymraeg hanfodol', sef dau Gyfieithydd a Swyddog Iaith Gymraeg, swydd Rheolwr y Gymraeg, swyddog HEO yn yr adran Gyfathrebu a swyddog Cymorth Busnes ar lefel EO. Manteisiodd yr ASB ar wasanaethau llwyfannau recriwtio Lleol a Swyddle i hyrwyddo'r swyddi hyn, yn ogystal â hysbysebu'r swyddi gwag yn yr Uned Iaith ar wefan ac yng nghylchlythyr Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Manteisiwyd ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg i dynnu sylw pellach at y swyddi hyn.

Roedd yr holl swyddi eraill a hysbysebwyd yng Nghymru yn cynnwys 'Cymraeg – dymunol' yn y fanyleb swydd, gan gynnwys cyfiawnhad dros pam y byddai cael siaradwr Cymraeg yn fuddiol yn y rôl honno.

6.5 Mae aelod o staff y tîm Cymorth Busnes sy'n gyfrifol am swyddogaethau Derbynfaf'r swyddfa yn siaradwr Cymraeg rhugl, yn unol â darpariaethau'r Cynllun Iaith a'r [Strategaeth Sgiliau Dwyieithog](#). Yr aelod hwn o staff sy'n gyfrifol am ateb y ffôn. Pan roddir rhybudd ymlaen llaw fod ymwelwyr Cymraeg yn ymweld â'r swyddfa (ac ers newid i weithio o bell, rhaid i ymwelwyr roi rhybudd ymlaen llaw os byddant yn bwriadu ymweld), bydd siaradwr Cymraeg rhugl yno i'w cyfarch.

6.6 Ceir rhif ffôn uniongyrchol ar gyfer yr ASB yng Nghymru, a rheolir y llinell hon gan swyddog dwyieithog sy'n ateb gyda chyfarchiad dwyieithog. Os bydd defnyddwyr eisiau trafod eu hymholiad yn Gymraeg, gallant wneud hynny naill ai gyda'r swyddog dan sylw, neu drwy gael eu cyfeirio at siaradwr Cymraeg yn y tîm perthnasol. Fel arall, dilynir y gweithdrefnau a nodir yn y Cynllun Iaith Gymraeg (pwynt 4.5). Os yw siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r llinell gymorth ganolog, cânt eu cyfarch â neges ddwyieithog a rhoddir dewis iddynt barhau yn Gymraeg. Yna cyfeirir yr alwad at ein llinell ffôn yng Nghymru.

6.7 Mewn perthynas â digwyddiadau cyhoeddus, fel y Digwyddiad Lansio'r Strategaeth i Aelodau'r Senedd yng Nghymru, bydd yr Uned Iaith yn asesu'r anghenion iaith ar gyfer pob digwyddiad unigol, a bydd y staff ym mhob digwyddiad yn adlewyrchu'r angen hwnnw. At hynny, mae'r ASB yn parhau i ddarparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn ôl yr angen ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus allanol. Mae gan bob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg fathodyn a chortyn 'Iaith Gwaith'.

7. Hyfforddiant Iaith

7.1 Mae holl aelodau staff swyddfa Cymru wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith sy'n eu helpu i ddeall mwy am y Gymraeg, ei hanes a'i statws yng Nghymru yn ogystal â dysgu am yr hyn y mae'n ofynnol iddynt ei wneud er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Chynllun Iaith Gymraeg statudol yr Asiantaeth. Mae gan yr Uned Iaith adran benodol ar y fewnwyd sy'n atgyfnerthu'r negeseuon hyn, ac mae sôn am y Cynllun Iaith a manylion cyswllt yr Uned Iaith yn y Llawlyfr Staff. Mae hefyd gan yr Uned Iaith grŵp ar Yammer, sef platform rhwydweithio cymdeithasol mewnol, ac rydym yn rhannu newyddion a deunydd perthnasol am y Gymraeg ar y grŵp hwn.

7.2 Caiff staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg, neu fagu eu hyder/defnydd o'r iaith, eu cyfeirio at yr adnoddau perthnasol (er enghraifft Cymraeg Gwaith, Say Something in Welsh) gan yr Uned Iaith. Mae'r ASB hefyd wedi cofrestru ar gyfer y modiwl Cymraeg Gwaith ar-lein (Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol) ac mae'n annog staff yn y swyddfa yng Nghymru, a'r tu hwnt, i ymgymryd â'r modiwl i ddysgu Cymraeg sylfaenol i'w defnyddio yn y gweithle.

7.3 Yn ystod y cyfnod hwn, rydym hefyd wedi parhau i hysbysebu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg gyda Cymraeg Gwaith ar ein tudalennau Yammer pwrpasol, yn benodol y cyrsiau Cymraeg yn y Cartref i rieni a gofalwyr.

7.4 At hynny, mae'r Uned Iaith bob amser ar gael i ddarparu cefnogaeth fentora, boed wyneb yn wyneb neu drwy gyfrwng arall (negeseuon gwib, cyfryngau cymdeithasu) er mwyn helpu staff i ddatblygu yn y maes hwn.

8. Technoleg Gwybodaeth

8.1 Mae gan bob aelod o staff yr ASB sy'n dymuno gweithio'n ddwyieithog feddalwedd Cysgliad ar eu dyfeisiau. Mae gan holl staff yr ASB yng Nghymru lofnod a negeseuon allan o'r swyddfa dwyieithog ar eu cyfrifon e-bost, wedi'u cyfieithu gan yr Uned Iaith. Anogir staff Cymraeg eu hiaith i ddrafftio testun a gohebiaeth yn Gymraeg, ac mae'r Uned Iaith wrth law bob amser i wirio'r gwaith hwn yn ôl y gofyn.

8.2 Mae'r Uned Iaith yn parhau i ddefnyddio meddalwedd cof cyfieithu Memsorce i sicrhau cysondeb a chywirdeb gyda chyfieithiadau. Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu cronfa derminoleg fewnol sy'n ymwneud yn benodol â'n meysydd gwaith, a chaiff ei safoni mewn cydweithrediad â Chanolfan Bedwyr a'i chyhoeddi hefyd ar [Porth Termau](#).

8.3 Mae'r Uned Iaith yn rheoli holl gyfrifon a chynnwys cyfryngau cymdeithasol Cymraeg yr ASB fel y nodir yn adran 3.2.

8.4 Mae'r Uned Iaith hefyd wedi'u hyfforddi i uwchlwytho holl gynnwys Cymraeg i'r wefan yn ôl yr angen, ac rydym yn gyfrifol am y gwaith hwn. Gall yr Uned hefyd adeiladu ac addasu strwythur y wefan yn ôl yr angen i gefnogi'r cynnwys Cymraeg, sy'n cynyddu drwy'r amser. Disgrifir hyn yn fanylach yn adran 3.2.

8.5 Mae gwybodaeth am yr Uned Iaith a pholisi Iaith Gymraeg yr ASB ar gael yn rhwydd yn fewnol ar y fewnrwyd ac yn allanol ar ein [gwefan gyhoeddus](#).

9. Aelodaeth Gorfforaethol Cymdeithas Cyfieithwyr

Cymru

9.1 Yr ASB oedd un o'r sefydliadau cyntaf i fod yn aelod gorfforaethol o 'Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru'. Mae'n destun balchder mai ni oedd yr unig adran lywodraethol ac unig gorff y Deyrnas Unedig i ennill y lefel hon. Mae'r aelodaeth yn destament i'n hymrwymiad parhaus i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r ansawdd uchaf i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r Uned wedi dal ei gafael ar yr aelodaeth gorfforaethol eleni eto. Mae'r Gymdeithas yn

cynnal cyrsiau hyfforddi a gweithdai cyfieithu'n rheolaidd, a manteisiodd dau aelod o staff yr Uned ar y cyfleoedd hyn eleni, gan fynd yn eu blaen i sefyll yr arholiadau yn y gwanwyn.

10. Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg


10.1 Ymhlith y rhaglenni codi ymwybyddiaeth penodol a gynhaliwyd yn ystod 2021-22 cafwyd:

Sesiynau anwytho rheolaidd i aelodau staff newydd yr ASB yng Nghymru

Mae'r Uned Iaith yn rhoi cyflwyniad i bob aelod staff newydd yr ASB yng Nghymru ar Gynllun Iaith yr Asiantaeth, gwaith yr Uned Iaith a sefyllfa'r iaith yng Nghymru. Mae hyn yn helpu i feithrin perthynas waith dda gyda'r staff newydd, yn ogystal â rhoi gwybod iddynt am eu cyfrifoldebau o ran y Gymraeg ac ennyn eu perchnogaeth o'r Cynllun Iaith.

Diwrnod Shw mae, Su' mai – Hydref 2021

Manteisiodd yr Uned ar ddatliadau Diwrnod Shw 'Mae 2021 i hyrwyddo'r iaith a'n gwasanaeth dwyieithog, gan gefnogi ymdrechion ein cydweithwyr i ymarfer eu Cymraeg. Gwnaethom rannu geirfa ddefnyddiol ar y fewnrwyd, rhannu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a threfnu sesiwn flasau 'Cymraeg yn y Gweithle' ar-lein gan yr Uned Iaith, a fynychwyd gan ddeg o'n cydweithwyr.



Dydd Gŵyl Dewi

Gan fod y rhan fwyaf o staff yr Asiantaeth yng Nghymru yn gweithio gartref erbyn hyn, nid oedd cyfle i gynnal digwyddiad wyneb yn wyneb yn y swyddfa. Yn hytrach, manteisiwyd ar ein sianeli ar-lein i ymgysylltu â staff. Gwnaethom ysgrifennu erthygl ar gyfer ein cylchlythyr, 'Iechyd Da', a oedd yn sôn am hanes Dewi Sant a thraddodiadau Dydd Gŵyl Dewi yng Nghymru. Yn ogystal, cyhoeddwyd cyfweiliad 'Meet a Colleague' â Rheolwr newydd yr Uned Iaith ar fewnwyd y sefydliad. Mae erthyglau 'Meet a Colleague' yn nodwedd reolaidd a phoblogaidd ar y fewnwyd, ond dyma'r tro cyntaf i'r erthygl gael ei chyhoeddi'n ddwyieithog. Roedd yn ffordd effeithiol o dynnu sylw at y Gymraeg fel iaith fyw ymhlith cydweithwyr ledled y DU, yn ogystal â thynnu sylw at ein gwasanaethau Cymraeg.

Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd

Cynhaliwyd diwrnod Cwrdd i Ffwrdd ym mis Mawrth eleni, lle daeth staff yr ASB yng Nghymru at ei gilydd am y tro cyntaf ers i gyfyngiadau COVID-19 gael eu llacio. Roedd hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yr ASB yng Nghymru yn amlwg, a'r agenda, yr holl ohebiaeth a oedd yn ymwneud â'r digwyddiad, yr arwyddion, y bathodynau a'r cyflwyniadau electronig ar y dydd oll yn ddwyieithog. Trefnodd yr Uned Iaith stondin i ddarparu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r Cynllun Iaith, ac roedd y staff ar gael i ateb unrhyw gwestiynau. Gwnaethom hefyd ddarparu bathodynau a chortynnau iaith Gwaith, beiros ac adnoddau eraill i helpu i hyrwyddo dwyieithrwyd y sefydliad.

11. Cwynion

11.1 Ni chafwyd unrhyw gwynion am ddarpariaeth Gymraeg yr ASB yn ystod 2021-22.